**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Cynllunio**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **20 Ebrill 2016**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Cyng. David Smith, Parth y Cyhoedd**
**Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai**

**Awdur yr Adroddiad:** **Catrin E Roberts, Swyddog Cynllunio**

**Teitl: Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy – I'w Mabwysiadu**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion o'r ymgynghoriad 8 wythnos ar y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft: Ynni Adnewyddadwy ac yn cynnig nifer o newidiadau i'r Nodyn Cyfarwyddyd mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd. Mae nifer o atodiadau yn cyd-fynd â'r adroddiad hwn:

**Atodiad I –** Canllawiau Cynllunio Atodol DRAFFT TERFYNOL: Ynni Adnewyddadwy (gyda newidiadau wedi'u dangos); mae'r ddogfen hon yn cynnwys 5 Atodiad.
**Atodiad II** - Adroddiad Ymgynghori - Ymateb y Cyngor i'r sylwadau a ddaeth i law;
**Atodiad III** - Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i Aelodau am y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft ar Ynni Adnewyddadwy ac i ofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r Nodyn Cyfarwyddyd gyda newidiadau arfaethedig. Os cânt eu cymeradwyo, bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu defnyddio i gynorthwyo wrth gyflwyno a phenderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau yn mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ynni Adnewyddadwy sy'n amgaeedig fel Atodiad 1, gyda newidiadau a argymhellir, i'w defnyddio gan ymgeiswyr ar gyfer cyflwyniad cynllunio ac ar gyfer swyddogion ac Aelodau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Os cânt eu mabwysiadu, bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn un o gyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n ymhelaethu ar bolisïau neu egwyddorion Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021 (CDLl) ar gyfer ceisiadau cynllunio unigol mewn fformat sy'n ceisio llywio proses, dyluniad ac ansawdd datblygiadau newydd.

4.2. Nid yw nodiadau CCA y Cyngor yn rhan o'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd. Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cadarnhau y gellir trin CCAau fel ystyriaethau cynllunio perthnasol, ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth ddilynol yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), wrth i'r ACLl, Arolygwyr Cynllunio a Llywodraeth Cymru benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau.

4.3. Mae'r CCA yn cefnogi'r polisïau'r CDLl canlynol; RD1: hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, VOE 10: yn hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau ynni adnewyddadwy a VOE 9: canllaw ar gyfer technoleg ynni gwynt ar y tir.

4.4. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy, gwarchod tirwedd a gwarchod tir amaethyddol. Mae'n cynnig canllaw os oes angen caniatâd cynllunio mewn perthynas â gosodiadau technoleg ynni adnewyddadwy bach. Pryd mae angen caniatâd mae'r CCA yn rhoi canllawiau ar ystyriaethau cynllunio allweddol wrth benderfynu ar gais. Mae'n canolbwyntio ar egluro'r gofynion ar gyfer ystyried datblygiadau gwynt ar y tir a datblygiadau arae paneli solar. Mae'r ddwy dechnoleg yn gyffredin yn y Sir ac yng ngogledd Cymru yn gyffredinol.

4.5. Cymeradwyodd yr Aelodau'r ddogfen ddrafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio ar 16 Medi 2015 ac roedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus am 8 wythnos hyd at 30 Tachwedd 2015. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys datganiad i'r wasg, gwybodaeth ar wefan y Cyngor ac e-bost neu lythyr at yr holl bobl ar y gronfa ddata CDLl, gan gynnwys Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned, Cynghorwyr Sir, darparwyr ynni adnewyddadwy, awdurdodau lleol cyfagos, ymgynghoreion statudol (CNC, LlC), sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sydd â diddordeb yn y CDLl. Mae'r llythyr yn eu hysbysu o'r manylion ymgynghori, digwyddiadau galw heibio yn Llanelwy a Chorwen a sut i ymateb.

4.6. Roedd copïau o'r ddogfen ddrafft a ffurflenni sylwadau ar gael ar wefan y Cyngor, mewn Llyfrgelloedd Cyhoeddus a 'Siopau Un Stop' y Cyngor.

4.7. Cafwyd dau (2) ddigwyddiad galw heibio - un yng Nghanolfan Ieuenctid Llanelwy (dydd Mawrth 20 Hydref 2pm – 7pm) ac un yn llyfrgell Corwen (dydd Mawrth 27 Hydref 2pm – 7pm). Roedd swyddogion o bolisi cynllunio a rheolwyr datblygu yn bresennol yn y digwyddiadau galw heibio. Cafodd y mynychwyr gyfle i roi sylwadau i swyddogion a thrafod cynnwys y Canllaw.

4.8. Daeth cyfanswm o 16 o ymatebion ysgrifenedig i law a mynychodd 4 o bobl y digwyddiadau. Roedd sylwadau wedi dod o Gyngor Tref Dinbych, Clocaenog, Cyffylliog, Derwen, Henllan, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Llanrhaeadr yng Nghinmeirch, Cynghorau Cymuned Llanynys, Dŵr Cymru. Adnoddau Naturiol Cymru, Cadw, Cangen Conwy Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, Cangen Clwyd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, RWE Innology UK Ltd. Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi cael eu cofnodi, eu cydnabod a'u sganio. Maent ar gael i'w gweld gan y Tîm Cynllunio a Thai Strategol yng Nghaledfryn. Rhoddir

crynodeb o’r materion allweddol a godwyd ac ymatebion unigol yn yr Adroddiad Ymgynghori sy’n amgaeedig yn Atodiad II.

4.9. Mae nifer o newidiadau’n cael eu cynnig mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd. Dangosir y rhain fel testun **a amlygwyd** neu ~~linell drwodd~~ yn y Canllawiau Cynllunio Atodol sydd ynghlwm yn Atodiad I.

4.10. Mae’r prif newidiadau arfaethedig yn cynnwys: rheolaeth dros dychwelyd i dir amaethyddol neu dir llwyd a’i statws ar ôl adeiladu, lefel y wybodaeth sydd ei hangen mewn perthynas â chysylltiad grid, cysondeb wrth ofyn am wybodaeth sensitifrwydd tirwedd, eglurhad gyda’r term amwynder preswyl ac amwynder cyhoeddus, oes weithredol technoleg, methodoleg asesu sŵn cronnus, pellter gwahanu.

4.11. Bwriad y newidiadau arfaethedig yw darparu mwy o eglurhad ynghylch gofynion y Cyngor ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy ac adlewyrchu sylwadau a dderbyniwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Cafodd materion allweddol sy'n codi o'r ymgynghoriad eu hadrodd yn ôl i Grŵp Llywio Aelodau’r Cynllun Datblygu Lleol ar 21 Mawrth 2016. Trafododd yr Aelodau a oedd yn realistig i dir gael ei ddychwelyd i ddefnydd amaethyddol ar ôl ei ddefnyddio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy; gofynion ar gyfer gwybodaeth am gysylltiadau grid; pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau arfaethedig a thai presennol a goblygiadau sŵn posibl. Argymhellodd y Grŵp Llywio y dylid cyflwyno'r ddogfen i'r Pwyllgor Cynllunio i'w mabwysiadu.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw’r CCA yn cyfrannu’n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol. Yn anuniongyrchol, gallai gosodiadau ynni adnewyddadwy gadw pobl ddiamddiffyn mewn ardaloedd gwledig gyda gwres/ynni cynaliadwy ac nid mewn tlodi tanwydd.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i fabwysiadu ac ar hyn o bryd ni ragwelir y bydd yn creu unrhyw gost ychwanegol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AoEaG wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

7.1 Casgliad y sgrinio ar yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yw nad oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft, gan gynnwys y newidiadau arfaethedig i’r ddogfen, gweler Atodiad III.

7.2 Derbyniodd yr aelodau’r farn sgrinio Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gyntaf gyda'r adroddiad i'r pwyllgor cynllunio ar 16 Medi 2015 pan ofynnodd Swyddogion am gymeradwyaeth ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gyda

budd-ddeiliaid allweddol ac aelodau o'r cyhoedd. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen AEC llawn bryd hynny. Nid yw'r newidiadau i'r ddogfen arfaethedig, sydd o natur olygyddol a ffeithiol, yn cyfiawnhau asesiad llawn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Trwy gydol y broses o baratoi'r ddogfen, gweithiodd Swyddogion Cynllunio ar y cyd ar gynnwys y Briff Datblygu Safle drafft gyda chydweithwyr o'r Tîm Rheoli Datblygu, Adran Gwarchod y Cyhoedd a'r Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol.

8.2 Trafododd Aelodau'r Grŵp Llywio CDLl gynnwys y ddogfen ddrafft cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus yng nghyfarfodydd Ebrill a Gorffennaf 2015, a thrafodwyd materion a godwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd ym mis Chwefror 2016.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Ni ragwelir y bydd mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn creu unrhyw gostau ychwanegol, ond os bydd rhai yn codi mae'n rhaid i'r rhain gael eu cynnwys o fewn cyllidebau adrannol presennol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Heb ganllawiau cyfredol, mae perygl na fyddai'r Cyngor yn gallu gweithredu polisi'r CDLl yn effeithiol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).